# SL(5)677 - Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae cyfraith yr UE yn gosod rheolau a fframweithiau ar gyfer rheoli gwastraff. Mae'r rheolau hyn yn cael eu gweithredu yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth ddomestig yn bennaf. Mae Rheoliadau 2019 yn diwygio'r ddeddfwriaeth ddomestig bresennol honno i wneud y newidiadau technegol angenrheidiol i sicrhau y bydd yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE.

O ganlyniad i'r ffaith bod deddfwriaeth yr UE wedi'i gweithredu ers gwneud Rheoliadau 2019, nid yw'r darpariaethau cywiro a wnaed gan Reoliadau 2019 yn mynd i'r afael yn llawn mwyach â'r diffygion yng ngweithrediad cyfraith yr UE a ddargedwir a fydd yn codi ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac y bwriadwyd iddynt eu cywiro.

Mae'r mân newidiadau a'r newidiadau technegol a wneir gan yr offeryn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig yr UE sy'n ei gorfodi yn parhau i weithredu'n effeithiol.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2008/98/EC i'w darllen fel pe bai'r testun a ganlyn wedi'i fewnosod ar ôl paragraff 1:

> *"1A. Any decision as to whether a substance or object has ceased to be waste must be made—*

*(a) in accordance with any regulations or retained direct EU legislation (within the meaning given to that expression in the European Union (Withdrawal) Act 2018) setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific types of waste; and*

*(b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article."*

At hyn, mae Erthygl 6 o Gyfarwyddeb 2008/98/EC wedi'i haddasu i ddarllen fel pe bai "*Any detailed criteria set out in guidance as referred to in paragraph 1A*" yn disodli '*Those detailed criteria*".

Caiff y Gyfarwyddeb ei haddasu gan reoliadau 2(2)(c), 2(3)(c), 2(4)(a) a 2(5)(b) o'r Rheoliadau hyn.

Gofynnir am esboniad ychwanegol ynghylch y ffaith bod cyfeiriad penodol at feini prawf manwl yn (a) ond nid (b), felly oni ddylid defnyddio'r geiriau "*Any detailed criteria set out in regulations or retained direct EU legislation*" yn lle "*Any detailed criteria set out in guidance*".

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 2(3)(a) yn hepgor "*(as substituted by regulation 4(2))*" o'r diffiniad ar gyfer "cyfleuster gwastraff "a gynhwysir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004. Mae Rheoliad 2(3)(a) yn disodli'r diwygiad a gynhwysir yn rheoliad 7(2) o Reoliadau 2019. Er bod y geiriad sydd wedi'i hepgor wedi'i gynnwys yn rheoliad 7(2) o Reoliadau 2019, nid yw wedi'i gynnwys yn Rheoliadau Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor mai gweithdrefn negyddol yw'r weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Sylwn mai 'Diogelu'r Amgylchedd, Cymru' yw pennawd pwnc y Rheoliadau hyn. Mae Rheoliadau 2019, a gaiff eu diwygio gan y Rheoliadau hyn, hefyd yn cynnwys "Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Cymru" a "Gwastraff, Cymru" fel penawdau pwnc. Gan fod penawdau pwnc yn ei gwneud yn haws i'r darllenydd ddod o hyd i'r maes y mae'r offeryn yn effeithio

arno, byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r Rheoliadau wedi cynnwys "Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, Cymru" a "Gwastraff, Cymru".

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn yr ail baragraff o Ran 5 o'r Memorandwm Esboniadol, cyfeirir at "Reoliadau'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020" Mae'n ymddangos yn y fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r Memorandwm Esboniadol. Tybir y dylent gyfeirio at y Rheoliadau hyn.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ac eithrio'r rhai a nodir uchod, ni nodir unrhyw oblygiadau eraill i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**9 Tachwedd 2020**